



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Syr John Rhys

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae Ysgol Syr John Rhys yn gymuned ddysgu lwyddiannus sy'n dathlu diwylliant Cymru, cwrteisi a pharch, a chyflawniad disgyblion, yn arbennig o dda. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth ac yn parchu ymdrechion pawb sy'n cyfrannu at addysg gyflawn y disgyblion. Mae staff yn ymrwymo i ddarparu ansawdd uchel o ofal a lles disgyblion, mewn awyrgylch dysgu cartrefol a chefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n gryf ar agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at ei gilydd ac at eraill. Mae'r cydweithio strategol sy'n digwydd gyda dwy ysgol gyfagos sydd dan ofal y pennaeth, yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion.

Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn cynllunio ystod o brofiadau chwarae a dysgu ysgogol i'r disgyblion. Maent yn darparu cwricwlwm eang sy'n berthnasol i ddiddordebau'r disgyblion, gan gynnwys astudio hanes a daearyddiaeth ardal yr ysgol. O ganlyniad, mae balchder y disgyblion at eu hardal leol yn amlwg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau llafar, rhifedd a digidol sy'n briodol i'w hoedrannau a'u manau cychwyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar a darllen Saesneg yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir ac aeddfed. Er hyn, nid yw medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion yn datblygu'n ddigon cadarn, yn enwedig eu gallu i ddarllen ar goedd a thrafod testunau'n hyderus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da dros amser gan ystyried targedau eu rhaglenni unigol a'u cyflawniadau blaenorol.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth a'r staff yn fwriadus. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau a blaenoriaethau gwella'r ysgol, gan ddarparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gadarn. Mae'r rhieni'n falch iawn bod eu plant yn mynychu ysgol fach mor gefnogol sy'n gwbl ganolog i gymuned wledig ardal Ponterwyd.

Argymhellion

A1 Datblygu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Syr John Rhys
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Ceredigion
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	22
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	19
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	33.9%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	23%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	5%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	Medi 2009
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	28/04/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	11/03/2024

ⓘ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.